

# Y Cloi Mawr

*Gwnaeth dosbarthwyr Aberystwyth mwy na gwerthu pethau yn ystod y cloed. Peidiwch â diystyru busnesau lleol yn y dyfodol, meddai Peter Saunders o Aberystwyth*

Ar ddechrau mis Mawrth, roedd Covid-19 ond yn eitem newyddion, rhywbeth a ddylai ddifannu erbyn Pasg. Pythefnos yn ddiweddarach roeddem yn wynebu cyfnod o ynysu am dair wythnos o bosib ac yn llenwi ein silffoedd a'n rhewgelloedd. Wythnos yn ddiweddarach ac roeddem yn prynu mewn panig, ac ymestynwyd y cloi at ddeuddeg wythnos. Yn sydyn sylweddol ni na allai llawer ohonom barhau heb gymorth am dri mis a gwawriodd realiti newydd.

Yr oedd parseli o fwyd argyfwng angenrheidiol i'r rhai oedd yn ynysu ar gael gan Gyngor Ceredigion, roedd yr archfarchnadoedd yn cael trafferth i drefnu digon o amserau i ddsbarthu bwyd i'r cartrefi ac roedd bwydydd angenrheidiol yn prinhaus yn gyflym iawn. Diflannodd blawd o'r silffoedd yn yr archfarchnadoedd, daeth prinder papur tŷ bach yn stori i'w chofio am byth, ac roedd y derbyn bwyd jyst mewn pryd yn prinhaus. Datryswyd y materion hyn ond nid cyn i ni i gyd sylweddoli ein bod wedi dod yn ddibynnol ar system siopa nad oedd yn ystwyth.



Yn ffodus i ni, daeth siopau lleol Aberystwyth yn gyflym allan o'r sioc o gload sydyn, a'r colled busnes ar unwaith, ac fe'u trowyd yn ganolfannau dosbarthu lleol. Ni fu byth brinder o flawd gan ei fod ar gael o Lanrhystud, daeth llysiâu a ffrwythau ffres o ffermydd gerllaw ac roedd y cigyddion yn medru cael eu cig yn lleol. Roedd ein bwytai yn gyflym iawn yn cynnig amrywaieth o fwydlenni diddorol a'u dosbarthu, gan roi i ni orffwys o goginio, dipyn bach o foethusrwydd a phelydryn o obaith. Roedd Traidcraft wedi gallu dod o hyd i bapur tŷ bach!

Nid yn unig bod busnesau Aberystwyth yn ddibynadwy, ond hefyd o ansawdd uchel. Parhaodd y siopau i werthu caws lleol bendigedig, ac amrywiaeth o lysiau gwych a llaeth ffres. I fi, roedd siop leol yn gallu cynnig ffa coffi ffres a siocled da.

Ond nid bwyd da yn cael ei gynnig yn rheolaidd oedd hyn yn unig , ond am gadw cysylltiad cymdeithasol. Y mae cadw pellter cymdeithasol yn angenrheidiol wrth goncro’r feirws, ond y mae cyswllt cymdeithasol hefyd yn bwysig wrth gadw gobaith a deall ein dibyniaeth ar ein gilydd. Y siopwyr oedd yn crwydro o gwmpas yn ein cymunedau, yn ein cadw’n hapus ac yn ddisgwylgar. Yr oeddem hefyd yn dibynnu ar ein cymdogion am gludo papurau newydd, meddyginiaeth a phethau a anghofwyd, ac am eiriau o annogaeth ar draws y stryd.

Dyma’r pethau y dylem eu cofio; ni ddylem lithro yn ôl yn ddi-feddwil i’r hen ffordd o fod yn ddibynnol ar ffyrdd hir o gyflenwi gan ddewisiadau pobl eraill.